


WATRS

Cynllun Unioni Cam Dŵr


Nodiadau Canllaw i Gwsmeriaid

**Cynllun Unioni Cam Dŵr
(WATRS)**

100 St. Paul's Churchyard
Llundain EC4M 8BU

 +44 (0)800 008 6909

 www.watrs.org

 applications@watrs.org



Beth yw WATRS?

Cynllun gwasanaeth cyflafareddu rhad ac am ddim, annibynnol a diduedd yw'r Cynllun Unioni Cam Dŵr (WATRS) sydd wedi'i sefydlu i ddatrys anghydfod rhwng cwsmeriaid a chwmnïau dŵr a charthffosiaeth. Rydyn ni'n dyfarnu ynghylch anghydfod nad yw wedi'i setlo trwy weithdrefn gwynion y cwmni dŵr ei hunan neu drwy ei gyfeirio at CCW, y corff sy'n cynrychioli defnyddwyr dŵr. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch CCW ar: <https://www.ccwater.org.uk>

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng WATRS a CCW

Mae CCW yn cyflwyno argymhellion ynghylch y ffordd orau o ddatrys anghydfod. Yn WATRS, mae gennym ni'r awdurdod i gymryd penderfyniad ynghylch eich anghydfod, yn seiliedig ar y dystiolaeth y byddwch chi a'r cwmni dŵr wedi'i gyflwyno i ni. Unwaith y byddwn ni wedi dod i benderfyniad terfynol, a chithau wedi'i dderbyn, bydd y cwmni dŵr yn cydymffurfio bob amser.

Sut allaf i fod yn siŵr y byddwch chi'n annibynnol?

Mae'r Panel Trosolwg annibynnol yn ddull amgen o ddatrys anghydfod wedi'i sefydlu i wneud yn siŵr ein bod yn annibynnol, yn effeithiol, y deg ac yn onest. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynghylch y panel ar www.resolvingwaterdisputes.org.uk

Pwy fydd yn cymryd y penderfyniad ynghylch fy anghydfod?

Bydd un o'n dyfarnwyr proffesiynol, profiadol, wedi cymhwyso'n gyfreithiol, yn ystyried eich cais. Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar yr wybodaeth ysgrifenedig y bydd pob parti wedi'i gyflwyno.

Sut y bydd y dyfarnwr yn penderfynu'r achos?

Bydd y dyfarnwr yn ystyried yr wybodaeth yn eich cais am ddyfarniad a hefyd unrhyw dystiolaeth atodol y byddwch yn ei gyflwyno. Bydd hefyd yn ystyried:

- tystiolaeth y cwmni dŵr wrth ymateb i'ch hawliad;
- yr holl ddeddfau perthnasol (megis Deddf y Diwydiant Dŵr 1991)
- telerau ac amodau perthnasol;
- y Safonau Gwarantiedig (y rhain yw'r lefelau gofynnol o wasanaeth y mae gofyn i gwmnïau dŵr eu cyfarfod, yn ôl y gyfraith) a;
- beth sydd fwyaf teg a rhesymol o dan amgylchiadau eich hawliad.

Mae WATRS yn cael ei arwain bob amser gan yr egwyddorion craidd hyn:

- Annibyniaeth
- Tegwch a diduedd
- Cymesuroldeb
- Cysondeb
- Tryloywder
- Effeithiolrwydd
- Atebolrwydd

Allaf i siarad gyda'r dyfarnwr?

Na allwch, ni fydd y dyfarnwr yn siarad gyda chi na chyda'r cwmni dŵr. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod y dyfarnwr yn hollol ddi-duedd.

A fydd yna wrandawriad i mi gyflwyno tystiolaeth?

Na fydd, rydyn ni'n dod i benderfyniad ar sail tystiolaeth ysgrifenedig yn unig. Gallai hyn gynnwys llythyrau, ebyst a biliau (mae rhestr fwy gynhwysfawr ar gael yn nes ymlaen yn y ddogfen hon).

Pa bryd fydda i'n cael penderfyniad?

Rydyn ni'n anelu at anfon penderfyniad terfynol atoch chi o fewn 35 diwrnod gwaith o dderbyn eich cais cyflawn.

Oes raid i mi ddefnyddio WATRS?

Nac oes, does dim rhaid i chi gyflwyno cais i ni i setlo eich anghydfod. Gallwch fynd â'r mater at fforwm arall, megis llys, os dymunwch.

Mae fy nghwyn ynghylch carthffosiaeth, nid dŵr, allaf i ddal i ddefnyddio WATRS?

Gallwch, rydyn ni'n ymdrin ag anghydfod ynghylch gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth.

Oes raid i mi dalu i ddefnyddio WATRS?

Nac oes, mae ein gwasanaeth yn rhad i gwsmeriaid. Mae'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn talu amdano drwy danysgrifio i WATRS.

Allaf i adfer costau paratoi fy achos?

Na allwch, mae'n rhaid i chi dalu costau paratoi a chyflwyno eich achos i ni eich hunan. Er enghraifft, os byddwch yn gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch cyflwyno cais, bydd yn rhaid i chi dalu am hynny.

Ydw i angen cyfreithiwr neu dalu i asiant?

Nac ydych, dydych chi ddim angen cyfreithiwr na thalu i asiant, ac os byddwch chi'n cael cyfreithiwr neu asiant, bydd yn rhaid i chi dalu eu costau cyfreithiol (neu gostau proffesiynol eraill) eich hunan.

Allaf i beidio â thalu i'r cwmni dŵr am ei wasanaethau nes fy mod i'n gwybod beth fydd canlyniad fy nghwyn?

Na allwch, nid yw cyfeirio anghydfod atom ni'n golygu nad oes raid i chi dalu biliau'r cwmni nad ydyn nhw'n rhan o'ch anghydfod.

Oes yna unrhyw derfynau amser at gyfer cyflwyno cais?

Oes, mae gennych chi chwe mis o ddyddiad y llythyr gan CCW i gyflwyno cais.

Sut mae'r broses yn gweithio

Pa bryd allaf i gyflwyno cais i WATRS?

Gallwch gyflwyno cais i ni ar ôl:

- i chi fod wedi mynd drwy weithdrefn gwyno fewnol y cwmni dŵr a bod y cwmni wedi'ch hysbysu y gallwch fynd at WATRS (ar gyfer cwsmeriaid NHH); a
- bod CCW wedi dweud wrthy eich bod yn gymwys i ymgeisio. Bydd CCW yn rhoi llythyr cyfeirio at WATRS i chi (sydd hefyd yn cael ei alw'n llythyr terfynu) neu lythyr dewis.

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich cais i ni, ni fydd CCW wedyn yn gallu cyfryngu ar eich rhan gyda'ch cwmni dŵr nac ymchwilio i'ch cwyn ymhellach.

Sut ydw i'n cyflwyno cais i WATRS?

Gallwch gyflwyno cais i WATRS drwy un o'r dulliau canlynol:

- Post
- Ffôn
- Porth ar lein drwy wefan WATRS
v(Noder: yn y rhan fwyaf o achosion, gall CCW gyflwyno'r cais ar eich rhan).

Oes yna unrhyw derfynau amser at gyfer cyflwyno cais?

Oes, mae gennych chi chwe mis o ddyddiad y llythyr gan CCW i gyflwyno cais.

A yw CCW yn gallu cyflwyno fy nghais ar fy rhan?

Ydyw, bydd CCW yn gallu cyflwyno'r cais drwy ein porth ar lein a chyflwyno'r holl dystiolaeth y maen nhw wedi'i gasglu ar eich rhan. Gallwch chi wedyn gael golwg ar y cais i wneud yn siŵr ei fod yn dweud popeth rydych chi'n dymuno ei ddweud.

Beth ddylwn i ei wneud cyn cyflwyno cais?

Dylech ddarllen y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn cyflwyno cais, i wneud yn siŵr y byddwn ni'n gallu ymdrin â'ch hawliad. Mae ein Tîm Ymholiadau a Gweinyddu hefyd wrth law os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu ofnau ynghylch y broses cyflwyno cais.

Â pha fath o anghydfod ydych chi'n ymdrin?

Gallwn ni ymdrin ag anghydfod ynghylch:

- biliau, taliadau, casgliadau a chasglu dyledion;
- mesuryddion;
- gwasanaethau cyflenwi dŵr;
- gwasanaethau dŵr gwastraff a charthffosiaeth;

- datblygiadau a chyflenwadau newydd, a
- materion eraill sydd wedi bod trwy weithdrefn gwynion fewnol y cwmni ac nad ydyn nhw'n cael eu heithrio o dan ein rheolau.

Os na fyddwn ni'n gallu ymdrin â'ch anghydfod, byddwn yn dweud wrthy'ch chi ac ni fydd eich cwyn yn mynd at ddyfarnwr.

Gall y cwmni dŵr hefyd wrthwynebu ein bod ni'n derbyn eich cais os yw'n ystyried fod yr anghydfod y tu allani gwmpawd ein cynllun. Os felly, byddwn ni'n penderfynu a yw eich cais yn ddilys a bydd ein penderfyniad ni'n derfynol.

Â pha fath o anghydfod na allwch chi ymdrin?

Allwn ni ddim ymdrin â'ch cwyn os yw ynghylch unrhyw un o'r materion canlynol:

- anghydfod ynghylch Deddfau Cystadleuaeth 1998 a 2002;
- Achosion gorfodi rheolaethol;
- penderfyniadau prynu crynswth;
- anghydfod rhwng ymgymerywyr, rhwng trwyddedeion a rhwng ymgymerywyr a thrwyddedeion;
- anghydfod trwyddedu cyflenwadau dŵr
- chwythu'r chwiban
- unrhyw fater y mae gan Ofwat hawl i benderfynu yn ei gylch;
- safonau cyfreithiol ansawdd dŵr;
- achosion gorfodaeth o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a'r Ddeddf Amgylcheddol 1995 fel y'u diwygiwyd;
- anghydfod sydd o flaen y llysoedd ar hyn o bryd neu y mae'r llys wedi dyfarnu yn eu cylch (oni bai bod penderfyniad y llys wedi'i 'osod o'r neilltu', sy'n golygu nad yw gorchymyn / dedfryd y llys bellach yn berthnasol);
- anghydfod ynghylch cais presennol neu flaenorol o dan y cynllun;
- sut y mae CCW ac Ofwat wedi trin cwynion
- cwynion sy'n cael eu hymchwilio (neu sydd wedi cael eu hymchwilio) gan asiantaeth statudol neu reolaethol (gan gynnwys yr Arolygiaeth Dwr Yfed neu Asiantaeth yr Amgylchedd), oni bai bod CCW wedi rhoi llythyr i chi yn dweud y gallwch chi gyflwyno cais i ni;
- cwynion ynghylch trydydd partion / ailwerthu;
- anghydfod ynghylch honiadau o drosedd (gan gynnwys twyll); ac
- unrhyw anghydfod rydyn ni o'r farn sy'n bitw neu'n faleisus

Os nad ydych chi'n siŵr a allwch chi ymgeisio, ffoniwch ni.

Y Broses Ymgeisio

Beth yw'r swm mwyaf o arian allaf i ei hawlio drwy WATRS?

Y mwyaf y gallwch ei hawlio yw fel a ganlyn:

- £10,000 am bob cwsmer mewn eiddo trigiannol
- £25,000 am bob cwsmer eiddo mewn eiddo anhrigiannol (megis eiddo masnachol).

Gall y dyfarnwr ddweud wrth y cwmni am weithredu neu ddarparu gwasanaeth i chi, ond ni all cyfanswm gwerth unrhyw hawliad, gan gynnwys costau unrhyw weithredu neu wasanaethau fod yn fwy na'r uchafswm.

Mae'r terfynau hyn yn berthnasol os oes yna fwy nag un cwsmer yn byw neu'n gweithio yn yr un cyfeiriad (oni bai eu bod nhw'n talu biliau gwahanol, yna, byddai gofyn cael ceisiadau ar wahân).

Allaf i wneud cais am fwy na'r uchafswm?

Gallwch, ond ni fydd y dyfarnwr yn gallu gorchymyn y cwmni i dalu mwy i chi, nac i weithredu i ddarparu unrhyw wasanaeth, pe byddai cyfanswm y costau hynny'n fwy na'r uchafswm.

Allaf i hawlio llogau?

Gallwch, os ydych chi ar eich colled oherwydd bod eich darparydd dŵr neu garthffosiaeth wedi codi gormod arnoch chi, gallwch hawlio llogau. Os bydd y dyfarnwr yn cytuno â'ch hawliad, bydd llogau'n cael eu dyfarnu ar yr un raddfa a ddefnyddir yn y Llys Sirol, o'r dyddiad pan wnaed y taliad anghywir hyd at ddyddiad penderfyniad y dyfarnwr.

Beth ddylwn i ei gynnwys yn fy nghais?

Dylech gynnwys y llythyr oddi wrth CCW yn dweud y gallwch chi gyflwyno cais i ni. Os nad yw'r llythyr hwn gennych, gallwch ofyn i CCW am gopi. Dylech gynnwys ynghylch beth mae'r anghydfod, beth ydych chi'n ei hawlio gan y cwmni dŵr a pham.

O ran tystiolaeth, byddwn yn gofyn i chi gyflwyno pethau fel:

- Y dyddiad pan wnaethoch chi sylweddoli gyntaf fod yna broblem a chwyno wrth y cwmni
- Copïau o unrhyw ohebiaeth e.e. llythyrau, e-byst, sgrinluniau o gysylltiadau gyda'r cwmni.
- Manylion trafodaethau ffôn gawsoch chi gyda'r cwmni (gan gynnwys dyddiadau ac amserau ac enwau'r rhai oeddech chi'n siarad â nhw, os gwyddoch chi)
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai helpu'r dyfarnwr i benderfynu ar eich cais.

Efallai fod hyn i gyd eisoes gan CCW ac y bydd yn gallu eu hanfon ar eich rhan. Er mwyn i ni allu derbyn eich cais, mae'n rhaid i chi roi caniatâd i'r cwmni (a CCW os byddwch chi eisiau iddyn nhw anfon dogfennau) drosglwyddo'r holl wybodaeth ynghylch eich anghydfod.

Dylai eich cais gynnwys manylion:

- y gwasanaeth gan y cwmni sydd wedi achosi'r anghydfod;
- pa bryd y cododd y broblem gyntaf;
- ynghylch beth mae'r anghydfod;
- y camau rydych chi eisoes wedi'u cymryd i geisio datrys yr anghydfod gyda'r cwmni (gan gynnwys CCW).
- dyddiadau allweddol pan ddigwyddodd pethau;
- y rhesymau pam eich bod chi eisiau canlyniad penodol i'r anghydfod;
- y rhesymau a'r dystiolaeth i gefnogi cais am unrhyw iawndal rydych yn ei hawlio;
- unrhyw ddogfennau cefnogi perthnasol. Cofiwch, bydd cyflwyno tystiolaeth i gefnogi eich hawliad o help.

Rydyn ni wedi paratoi ffurflen gais sy'n cynnwys rhestr o'r uchod, gam wrth gam.

Allwch chi fy helpu i gyda'm cais?

Gallwn, gall ein tîm Ymholiadau a Gweinyddu gynnig cyngor ar gyflwyno cais. Rydyn ni wedi ymrwmo i wneud ein holl wasanaethau'n hygyrch i bawb y byddwn ni'n ymdrin â nhw a byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol yn ôl y gofyn i'ch helpu chi. Ond, allwn ni ddim dweud wrthyh chi beth i ofyn amdano.

A fydda i'n gallu gweld ymateb a thystiolaeth y cwmni dŵr?

Byddwch, byddwch yn gallu gweld popeth y bydd yr ochr arall wedi'i gyflwyno. Bydd genych bum diwrnod gwaith i ymateb i hynny. Cofiwch na fyddwch yn gallu cyflwyno unrhyw gwynion newydd ar yr adeg yma.

Setliadau a Phenderfyniadau

Allaf gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch fy nghais?

Gallwch, bydd eich cais ar borth diogel ar lein a byddwch yn gallu mewngofnodi a gweld yn union beth sy'n digwydd i'ch cais bob amser. Os na allwch chi fynd ar y rhyngwrwyd, bydd aelod o'r Tîm Ymholiadau a Gweinyddu yn un ai postio, ebostio neu'n eich ffonio bob tro y bydd yna rhywbeth yn newid ynghylch eich cais.

Setliadau

Roedd y cwmni wedi gwneud cynnig cyn i mi gyflwyno fy nghais. Allaf i ddal i'w dderbyn?

Na allwch, nid yw unrhyw gynnig (neu gynigion) gan y cwmni dŵr bellach ar gael ac ni allwch chi eu derbyn ar ôl i chi gyflwyno eich cais.

Beth pe byddai'r cwmni cyflwyno cynnig i mi ar ôl i mi gyflwyno fy nghais?

Gallwch dderbyn unrhyw gynnig y bydd y cwmni'n ei wneud ar ôl i chi gyflwyno eich cais ond cyn i'r dyfarnwr anfon penderfyniad atoch chi. Gelwir hyn yn setliad drwy gytundeb. Os byddwch chi'n derbyn cynnig, bydd y cwmni'n gadael i ni wybod a byddwn ni'n cau'r achos. Bydd yn rhaid i chi gadarnhau eich bod yn derbyn y setliad a gytunwyd.

A fyddwch chi'n trafod gyda'r cwmni ar fy rhan?

Na fyddwn, gwasanaeth diduedd, annibynnol ydym ni ac ni fyddwn ni'n gweithredu ar eich rhan chi nac ar ran y cwmni.

Penderfyniadau dyfarnu

Beth fydd yn digwydd pan fydd dyfarnwr yn cymryd penderfyniad?

Pan fydd dyfarnwr wedi pwysu a mesur yr holl dystiolaeth mewn achos, bydd yn ysgrifennu'r penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei anfon atoch chi ac at y cwmni dŵr a bydd yn cael ei alw 'Penderfyniad Arfaethedig'.

Bydd y Penderfyniad Arfaethedig yn dangos casgliadau'r dyfarnwr ynghylch yr anghydfod ac, os yw'n cytuno gyda'ch hawliad, efallai y bydd yn cynnwys cyfarwyddid i'r cwmni dŵr gymryd camau pellach.

Bydd gennych chi a'r cwmni dŵr bum diwrnod gwaith i gyflwyno sylwadau ynghylch y Penderfyniad Arfaethedig.

Beth os na fyddaf i'n cytuno gyda phenderfyniad arfaethedig y dyfarnwr?

Os na fyddwch chi'n cytuno gyda'r Penderfyniad Arfaethedig, gallwch anfon eich sylwadau at y dyfarnwr i'w hystyried. Nid apêl yw hyn, dim ond sylwadau allwch chi eu hanfon:

- pethau ffeithiol rydych chi o'r farn mae'r dyfarnwr wedi'u cael yn anghywir;
- camgymeriadau cyfreithiol y mae'r dyfarnwr wedi'i wneud

Setliadau a Phenderfyniadau

Allaf i anfon rhagor o dystiolaeth?

Gallwch, ond dim ond ynghylch yr hyn sydd eisoes wedi'i godi ynghylch yr achos. Allwch chi ddim cyflwyno hawliadau newydd.

Beth os nad yw'r cwmni dŵr yn cytuno â'r penderfyniad arfaethedig?

Dim ond ar y canlynol y gall y cwmni gyflwyno sylwadau:

- camgymeriadau ffeithiol;
- gwallau cyfreithiol, neu
- Amlygu enghreifftiau lle mae'r dyfarnwr wedi gweithredu y tu allan i'r hawliau a gytunwyd o dan Reolau'r Cynllun.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r sylwadau ynghylch y Penderfyniad Arfaethedig gael eu cyflwyno?

Bydd y sylwadau ynghylch y penderfyniad arfaethedig yn cael eu hanfon at y dyfarnwr a bydd cyfnod o dri diwrnod i benderfynu a ddylid gwneud unrhyw newidiadau.

Yna, bydd y dyfarnwr yn cwblhau'r penderfyniad terfynol ac yn ei anfon at y ddau barti. Unwaith y bydd y Penderfyniad Terfynol wedi'i gyflwyno, dyna ddiwedd y mater ac ni ellir apelio yn erbyn y penderfyniad na'i adolygu.

Beth allwch chi orfodi'r cwmni i'w wneud?

Gallwn ni ddweud wrth y cwmni am ddarparu neu wneud unrhyw un o'r canlynol:

- darparu eglurhad neu ymddiheuriad (neu'r ddau);
- darparu gwasanaeth;
- gwneud rhywbeth ynghylch eich bil;
- gwneud rhywbeth penodol; a
- thalu iawndal ariannol (os oes dyledion ar eich cyfrif, bydd yr iawndal yn cael ei dalu i'r cyfrif hwnnw i'w talu, bydd unrhyw swm dros ben yn cael ei dalu'n uniongyrchol i chi).

Cofiwch, ym mhob achos, ni fydd y dyfarnwr yn gallu gorfodi'r cwmni dŵr i dalu mwy i chi, na gwneud unrhyw beth, os bydd cyfanswm gwerth neu gostau gwneud hynny'n fwy na'r uchafswm a ganiateir o dan y cynllun.

Allwch chi ddirwyo'r cwmni neu ddwyn achos yn ei erbyn?

Na allwn, nid rheoleiddiwr ydym ni ac allwn ni ddim dirwyo cwmnïau. Ein dyletswydd ni yw setlo anghydfod unigol rhwng cwsmeriaid a chwmnïau mewn ffordd ddi-duedd ac annibynnol.

Setliadau a Phenderfyniadau

Beth ddylwn i ei wneud ar ôl derbyn eich penderfyniad terfynol?

Bydd gennych chi 20 diwrnod gwaith i ddweud wrthym ni a ydych chi'n derbyn y penderfyniad terfynol.

Allaf i dderbyn y penderfyniad terfynol ar ôl i'r cyfnod o 20 diwrnod gwaith ddod i ben?

Na allwch, allwch chi ddim derbyn y penderfyniad ar ôl 20 diwrnod gwaith.

Dydw i ddim yn fodlon gyda'r penderfyniad terfynol, allaf i apelio yn ei erbyn?

Na allwch, gallwch dderbyn neu wrthod y penderfyniad terfynol yn unig. Os byddwch yn gwrthod y penderfyniad terfynol, ni fydd hynny'n cyfrif dim. Does yna ddim gweithdrefn apelio nac adolygu.

Os byddaf i'n derbyn eich penderfyniad terfynol, pa bryd bydd y cwmni'n cadw ato?

Bydd yn rhaid i'r cwmni weithredu ar ein penderfyniad terfynol, o fewn y cyfnod y byddwn ni'n ei bennu. Os na fyddwn yn pennu cyfnod, bydd yn rhaid i'r cwmni weithredu o fewn 20 diwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r penderfyniad terfynol.

Beth os na fydd yn cadw at y penderfyniad neu'r setliad a gytunwyd?

Os na fydd y cwmni'n cadw at y penderfyniad terfynol, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ni o fewn 15 diwrnod o'r dyddiad pan ddylai fod wedi gweithredu.

Beth os byddaf i eisiau cwyno yn eich cylch chi?

Mae'r Weithdrefn Gwyno y mae CEDR wedi'i chyhoeddi ar gael ar wefan WATRS. Cofiwch na allwch chi gwyno ynghylch penderfyniad y dyfarnwr, mae'r penderfynid yn derfynol ac ni ellir ei adolygu nac apelio yn ei erbyn.

Ydych chi wedi'ch cofrestru o dan Ddeddf Diogelu Data 2018?

Ydym, mae CEDR wedi'i gofrestru o dan y rheoliadau cyffredinol diogelu data (GDPR). Mae'r porth ar lein y mae CEDR yn ei ddefnyddio ar gyfer WATRS yn llwyfan diogel yn y cwmwl sy'n cydymffurfio â gofynion y rheoliadau diogelu data.

Beth yw manylion cyswllt WATRS?


WATRS

70 Fleet Street,

Llundain EC4Y 1SR

Ffôn: (0)800 008 6909

Ebost: applications@watrs.org / Gwefan: www.watrs.org





WATRS

Cynllun Unioni Cam Dŵr


Cysylltwch â'r tîm WATRS ar:

 +44 (0)800 008 6909


 applications@watsr.org

**Cynllun Unioni Cam Dŵr
(WATRS)**

100 St. Paul's Churchyard
Llundain EC4M 8BU

 +44 (0)800 008 6909

 www.watsr.org

 applications@watsr.org